

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod 29 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J.C. Bird (Cadeirydd); Cyngorydd B.T. Gray (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr J. Aviet, R.M. Birch, P. Drake, V.P. Driscoll, S.T. Edwards, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, G.C. Kemp, A.C. Parker, L.O. Rowlands, N.C. Thomas, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), G.D.D. Carroll a M.J.G. Morgan.

Enw'r Llefarydd	Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad	Rheswm dros Siarad
G. John	2020/01504/FUL – Bwthyn Hensol, LLanddunwyd	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cyngorydd C.A. Cave.

EITEM AGENDA 2. COFNODION -

PENDERFYNWYD - CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiad canlynol:

Cyngorydd Parker	2020/01504/FUL – Bwthyn Hensol, LLanddunwyd	Buddiant niweidiol - Y Cyngorydd Parker oedd pensaer y cynllun gwreiddiol. Tynnodd y Cyngorydd Parker yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem.
------------------	---	--

EITEM AGENDA 4. CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Dylid nodi'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a gytunwyd, fel y'u rhestrir yn Adran A o'r adroddiad.
- (2) Dylid nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B o'r adroddiad.
- (3) Dylid cyflwyno Hysbysiadau o dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran C o'r adroddiad.

EITEM AGENDA 5. CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD - BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 8 trwy 24, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

EITEM AGENDA 6. APELIADAU (PAC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r apeliadau a dderbyniwyd yn dilyn gwrthod y Cyngor i roi caniatâd cynllunio fel y manylir yn Adran A yr adroddiad.
- (2) Nodi'r apêl orfodi a dderbyniwyd fel y nodir yn Adran B yr adroddiad.
- (3) Bod y penderfyniad Apêl Cynllunio fel y manylir arnynt yn Adran C yr adroddiad yn cael eu nodi.
- (4) Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (5) Nodi'r ystadegau sy'n ymwneud â'r apeliadau am y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022 fel y manylir yn Adran E yr adroddiad.

EITEM AGENDA 7. COED (PAC) –

- (i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 29 trwy 31, fel y penderfynir gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio o dan bwerau dirprwyedig.

EITEM AGENDA 8. CAMAU GORFODI (PAC) –

(i) Tir ac Adeiladau ar Dir ym Mharc Busnes Treftadaeth, Wick Road, Llanilltud Fawr

PENDERFYNWYD –

(1) DYLID awdurdodi'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

- (i) Rhoi'r gorau i'r holl weithrediadau prosesu pren ar y safle ac yn yr adeiladau, gan gynnwys:
 - (a) Darparu deunyddiau / pren gwastraff;
 - (b) Prosesu a naddu pren gwastraff;
 - (c) Sychu pren wedi'i brosesu;
 - (ch) Storio gwastraff a phren wedi'i brosesu a
 - (d) Allforio pren wedi'i brosesu.
- (ii) Cael gwared ar yr holl bren gwastraff, pren wedi'i brosesu, ac offer a pheiriannau sy'n gysylltiedig â'r gwaith prosesu pren gwastraff o'r safle, gan gynnwys y peiriant malu pren.

(2) DYLID awdurdodi Pennaeth Y Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi Hysbysiad Stop dan Adran 183 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

- (i) Rhoi'r gorau i brosesu a naddu pren gwastraff.

(3) DYLID hefyd roi'r awdurdod, os na chydymffurfir â'r Hysbysiad Gorfodi neu'r Hysbysiad Stop, i gymryd unrhyw achos cyfreithiol sy'n ofynnol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ymddengys i'r Cyngor fod y diffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliad cynllunio o ran gwaith prosesu pren gwastraff wedi digwydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

(2) Mae'r cyfleuster rheoli gwastraff, sef y gwaith prosesu pren gwastraff, yn methu â diogelu amwynder trigolion cyfagos, ni ddangoswyd y gall weithredu heb arwain at effaith annerbyniol ar bobl ac amwynder preswyl ac nid yw'n diogelu amwynder preswyl presennol. Felly, mae'r gwaith prosesu pren yn methu â chydymffurfio â'r gofynion a nodwyd ym Mholisiau SP8 - Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, MD2 - Dylunio Datblygiad Newydd, MD7 – Diogelu'r Amgylchedd a MD20 - Aseu Cynigion Rheoli Gwastraff, yn ogystal â'r canllawiau a gynhwysir yn NCT 21 – Gwastraff a pharagraff 5.12.1 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11).

(3) Ystyriwyd bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

EITEM AGENDA 9.

CEISIAD CYNLLUNIO (PAC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiadau a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

2018/01421/OUT

Tir i'r Gogledd o Heol y Pentir, Y Rhws

CYMERADWYWYD – Yn ddarostyngedig i'r amodau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2020/01371/FUL

Chwarel Lithalum, Ewenni

CYMERADWYWYD – Yn ddarostyngedig i'r amodau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2020/01504/FUL

Bwthyn Hensol, LLanddunwyd

CYMERADWYWYD – Cyhyd â bod yr amodau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad, gyda'r rheswm dros Amod 4, a oedd ar goll oherwydd camgymeriad gweinyddol, yn cael eu cynnwys fel isod:

Rheswm:

Diogelu amwynder gweledol, cymeriad cefn gwlad agored a bodloni gofynion SP1 Cyflawni'r Strategaeth, MD1 Lleoliad Datblygiad Newydd a MD2 Dylunio Datblygiad Newydd y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, CCA Dylunio y Dirwedd a NCT 12 Dylunio.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.